

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2022.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

17 Chwefror 2022

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595 (Cy. 136)) ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/48 (Cy. 11)) ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr").

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn gosod gofynion ar bersonau sy'n gweithredu gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin ("gweithredwyr").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dod i rym

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn symleiddio'r gofynion presennol a osodir ar weithredwyr. I'r graddau yr ymwneir ag unrhyw hawliau, mae unrhyw ymyriad wedi ei gyfiawnhau ac yn gymesur, er mwyn atal lledaeniad COVID-19 a diogelu iechyd y cyhoedd.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y [Rheoliadau Teithio Rhyngwladol](#) a'r [Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr, ac yn cael effaith o ddydd Gwener 18 Chwefror ymlaen. O ganlyniad i ddirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) a'u disodli gan

Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/126 (Cy. 41)), mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd wedi eu diwygio hefyd i ddarparu mai dim ond gwybodaeth benodedig y mae rhaid i weithredwyr ei darparu i deithwyr cyn i daith ymadael ac ar y llong, y cwch neu'r awyren ar wasanaeth teithwyr rhyngwladol. Mae'r Atodlen wedi ei diwygio i ddiweddarau'r wybodaeth y mae rhaid ei darparu i deithwyr.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr wedi eu diwygio i roi yn lle'r gyfres bresennol o rwymedigaethau ar weithredwyr rwymedigaeth i gynnal prosesau a systemau digonol i sicrhau bod teithwyr yn meddu ar wybodaeth neu dystiolaeth benodol.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i'r bygythiad a berir nawr i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad newidiol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen i'r ymateb iechyd y cyhoedd gyd-fynd â'r sefyllfa wrth iddi newid, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys er mwyn ymdrin â'r bygythiad parhaus i iechyd y cyhoedd.